


Beth am ...?





Dydd Sadwrn

Yassin 	Weithiau, ar ddydd Sadwrn, dw i'n mynd i'r ganolfan ddringo achos mae'n hwyl. Mae Matt a Sam yn dod hefyd.
Matt 	Dw i wrth fy modd yn dringo yn y ganolfan ddringo gyda Yassin a Sam ond dw i'n mwynhau chwarae golff hefyd. Mae clwb golff i blant a phobl ifanc yn y clwb golff yn y dre. Mae'n wych.
Emma 	Dw i'n hoffi mynd i'r dre gyda ffrindiau ar ddydd Sadwrn. Weithiau, rydyn ni'n siopa ac rydyn ni'n bwyta brechdan yn y parc amser cinio. Weithiau, rydyn ni'n mynd i'r sinema yn y prynhawn ac rydyn ni'n mynd i'r caffi wedyn.
David 	<u>DIFLAS!!! Mae'n gas gen i fynd i'r dre ac mae'n gas gen i siopa.</u> Mae'n gas gen i fwyta brechdan yn y parc.
Elin 	Mae'n gas gyda fi fynd i'r dre hefyd – ac mae'n gas gyda fi siopa. Dw i'n mwynhau mynd i go-cartio gyda ffrindiau achos mae'n gyffrous iawn.
Karen 	Dw i'n mwynhau mynd i dŷ ffrind i weld ffilm ar ddydd Sadwrn. Mae'n hwyl ac mae'n rhad ac am ddim!
Lewis 	Syniad, da Karen. Dw i'n hoffi mynd i dŷ ffrind hefyd – i chwarae gemau fideo. Mae'n gyffrous iawn.
Zena 	Dw i'n mynd i dŷ ffrind yn aml ar ddydd Sadwrn ond weithiau rydyn ni'n mynd i'r ganolfan hamdden i gadw'n heini hefyd.

Help

Help	
canolfan ddringo	climbing centre
hefyd	also
weithiau	sometimes
wedyn	then, afterwards
diflas	boring, miserable
mae'n gas gen i ...	I hate ...
mae'n gas gyda fi ...	I hate ...
rhad ac am ddim	free
cadw'n heini	to keep fit

i Beth ydy'r geiriau Cymraeg am ...?

golf club

to go-kart



P am ... Parti!



Parti Diwedd Tymor

Anfonwyd: Dydd Gwener, 27 Chwefror 2015 10:57

Oddi wrth: Jo@ysgolgyfunaber.net

At: [Pawb ym Mlwyddyn 7](#)

Helo, bawb.

Rydyn ni'n trefnu parti yn neuadd yr ysgol nos Wener nesaf, o chwech o'r gloch tan ddeg o'r gloch.

Y thema ydy P (P am "parti").

Rhaid gwisgo fel cymeriad **P**, e.e. **p**anda, **P**addington, **P**opeye, **p**arot, **p**engwin, cymeriad mewn **p**antomeim, **p**ostman ac ati.

Rydyn ni'n mynd i fwyta **p**izzas, **p**asta, **p**ysgod, **p**ys, ac rydyn ni'n mynd i gael **p**wdin hefyd: **p**astai afal, **p**astai mefus ac afal, hufen iâ **p**inafal a hufen iâ **p**istachio, **p**wdin **p**inafal ...

Rydyn ni'n mynd i yfed **p**op coch, **p**op melyn, **p**op gwyrdd, **p**op glas, **p**ob brown.

Rydyn ni'n mynd i chwarae gemau fel **P**asio'r **P**arsel a **P**wy wyt ti?

Rydyn ni'n mynd i gael cerddoriaeth **PoP**.

Rhaid talu **p**um **p**unt (i dalu am y bwyd a'r disg). Ydych chi eisiau dod?

Atebwch yr e-bost os gwelwch yn dda.

Hwyl fawr,

Jo, Paul, Alex, Sam, Nia, Yohei

Help

Geirfa	
diwedd tymor	end of term
thema	theme
cymeriad	character
ac ati	etc.
pastai	pie
mefus	strawberries
talw	to pay
ateb	to answer

i Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

dessert

pineapple



Pa glwb?

Wyt ti'n mynd i glwb yn yr ysgol?

Beth am ...?



CLWB ZUMBA

yn neuadd yr ysgol

Nos Fawrth
3.45-4.30



CLWB GWYDDONIAETH YN LABORDY 1

Prynhawn Llun 3.45-5.00

Club drama

yn y stiwdio ddrama

Amser cinio dydd Iau 12.15-1.00

Ond beth ydy'r clybiau yma?

Mae'r atebion yn Tasg 1.





Help

Geirfa

y gampfa the gym

neuadd hall

celf art

i Beth ydy'r geiriau yma yn Saesneg?

labordy

stiwdio



Y trip

Help

Geirfa

yn araf	slowly
yn gyflym	quickly
cwrs	course
beicio mynydd	mountain biking
y wlad	the coutry
y goedwig	the woods
antur	adventure
bowsio	to bounce
neidio	to jump
arbennig	special
y wifren wib	the zip wire
hir	long
uchel	high
hen	old
chwareli	mines
llechi	slates

Y Trip – trawsgrif:

I fyny ... i fyny ... yn araf ... yn araf ac yna, yn sydyn – i lawr yn gyflym. Sblash!

Ble ydyn ni?

Wel, yn Oakwood, Sir Benfro, wrth gwrs.

Os ydych chi'n hoffi mynd ar reidiau a chael hwyl, dewch i Oakwood!

Ble ydyn ni nawr?

Rydyn ni ar gwrs beicio mynydd ym Mrechfa, Sir Gaerfyrddin.

Mae'r cwrs yn ddiddorol iawn ...

... drwy'r wlad ...

... drwy'r goedwig.

Mae beicio mynydd yn llawer o hwyl!

Ydych chi'n hoffi cael antur?... Wel, dewch i Lechwedd ... yng Ngwynedd.

Mae'n lle da i fownsio.

Mae'n lle da iawn i fownsio ... a neidio ... a chael hwyl – llawer o hwyl... gyda ffrindiau.

Neu beth am fynd i Zip World yn Llechwedd a Bethesda, yng Ngwynedd?

Edrychwch. Mae'r bobl yma'n gwisgo dillad coch arbennig ac maen nhw'n zipio ar y wifren wib.

Mae'r wifren wib yn hir iawn.

Mae hi'n uchel iawn hefyd.

Mae'r wifren wib yn mynd dros hen chwareli llechi.

Mae zipio ar y wifren wib yn gyffrous iawn.

Mae'n gyffrous iawn iawn. Mae'n ffantastig! Mae'n hwyl!

Merch: Gwych!



Jeli mewn weli



Ysgolion yn Affrica

5 Y Ffordd Fawr

Aberystwyth

Ceredigion

SB45 8AB

22 Mai 2015

Annwyl ysgol

Ysgolion yn Affrica

Rydyn ni eisiau codi arian i adeiladu ysgolion newydd yn Affrica. Rydyn ni eisiau codi tair miliwn o bunnau (£3,000,000) ac felly rydyn ni'n ysgrifennu i ofyn am help os gwelwch yn dda.

Mae llawer o bobl Cymru'n helpu ni i godi'r arian. Mae rhai pobl yn:

- gwisgo gwisg ffansi
- lliwio'u gwallt yn binc neu'n wyrdd
- siafio'u gwallt
- eistedd mewn bath o gwstard
- siarad Cymraeg drwy'r dydd – dim Saesneg!

Dyma syniad newydd hefyd:

- rhoi jeli mewn welis a gwisgo'r welis drwy'r dydd.

Helpwch ni i godi tair miliwn o bunnau os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr.

C. White

Carys White - Swyddog Codi Arian

Help

Geirfa	
codi	to raise
adeiladu	to build
felly	therefore, so
gofyn	to ask
llawer	many, a lot of
rhai	some
lliwio	to colour
gwallt	hair
drwy'r dydd	all day
syniad	idea
rhoi	to put, place
swyddog	officer

i Beth ydy'r geiriau Cymraeg am ...?

Africa
million



Capoeira

Edrychwch ar y lluniau a'r clipiau yma. Maen nhw'n dangos Capoeira.



Beth ydy Capoeira?

Gymnasteg?

Dawns?

Ymladd?

Mae capoeira yn gymnasteg ... **a** dawns ... **ac** ymladd... **a** cherddoriaeth.

Dyma'r cylch - y roda.

Mae'r bobl yma'n clapio ac yn canu.



📌 Capoeira: Sut i chwarae

- Rhaid cael dau chwaraewr.
- Rhaid cael cylch o bobl – y *roda*.
- Rhaid i'r bobl chwarae cerddoriaeth.
- Rhaid i'r ddau chwaraewr ddawnsio ar eu traed ac ar eu dwylo – i rythm y gerddoriaeth.
- Rhaid i'r ddau chwaraewr wneud acrobateg – i rythm y gerddoriaeth.
- Rhaid tricio'r partner.
- Rhaid i'r bobl yn y *roda* ddewis pwy ydy'r chwaraewr gorau.

📌 Capoeira: ffeil ffeithiau

O ble?

O Brasil.

Pwy?

Caethweision.

Pryd?

Tua 500 o flynyddoedd yn ôl

Pam?

Roedd y caethweision yn drist iawn achos roedd y perchnogion yn gas iawn.

Roedd y caethweision eisiau dysgu sut i ymladd ond roedd problem – y perchnogion cas!

Roedd y perchnogion cas yn dweud, "Dim ymladd!"

Felly, roedd y caethweision yn 'cuddio'r' ymladd yn y dawnsio a'r gerddoriaeth.

Felly – ymladd + dawnsio + miwsig = capoeira

Help

	Geirfa
llun, lluniau	picture, pictures
ymhladd	fighting, to fight

cylch	circle
heini	fit
eu	their
dewis	to choose
gorau	best
caethweision	slaves
tua	about, approximately
blynyddoedd	years
yn ôl	ago
roedd	were
perchnogion	owners
cas	nasty, cruel
felly	therefore, so
cuddio	to hide

i Beth ydy ...?

acrobateg
chwaraewr
rhythm
tricio

Llysiau'n canu

Ydych chi'n hoffi llysiau?



"The Vegetable Orchestra (<http://vegetableorchestra.org/>)" - Instruments (<http://vegetableorchestra.org/instruments.php>). Lluniau gan Alexander Koller.

Ydych chi'n hoffi **bwyta** llysiau – mewn stiw neu *stir-fry* neu ar pizza?

Ydych chi'n hoffi **yfed** llysiau – mewn cawl neu sŵp neu mewn *smoothie*?

Ond ...

... ydych chi'n hoffi **gwrando** ar lysiau?

Gwrando ar lysiau?

Ydy, mae hi'n bosib **gwrando** ar lysiau. Gwylwch a gwrandewch:

Y gerddorfa lysiau



Pwy?

Y gerddorfa lysiau – neu *Das erste Wiener Gemüseorchester*.

Ble?

Vienna, Awstria – ond maen nhw'n perfformio ar draws y byd.

Beth?

Mae'r gerddorfa'n creu cerddoriaeth – allan o lysiau.

Sut?

Maen nhw'n gwneud offerynnau – allan o lysiau. Maen nhw'n chwythu ac yn taro'r offerynnau.

"The Vegetable Orchestra (<http://vegetableorchestra.org/>)" - Group photo (<http://vegetableorchestra.org/about.php>). Lluniau gan Zoefotografie.

Pa fath o offerynnau?

Maen nhw'n gwneud trympedau allan o *courgettes*, bongos allan o seleri, *cucumberophones* allan o giwcymbrau a recorders allan o foron.

O ble mae'r llysiau'n dod?

Mae'r bobl yn mynd i'r farchnad i brynu llysiau ffres. Yna, maen nhw'n gwneud yr offerynnau ac maen nhw'n perfformio gyda'r offerynnau.

Pa fath o gerddoriaeth?

Mae'r gerddorfa'n perfformio cerddoriaeth fodern, cerddoriaeth bît, cerddoriaeth electronig, jazz a *dub*.

Ble maen nhw'n perfformio?

Ar draws y byd.

Ac ar ôl y perfformiad?

Mae pawb yn cael powlen o gawl llysiau ffres.

Blasus!

Help

Geirfa	
cerddorfa	orchestra
ar draws y byd	all over the world
creu	to create
offeryn, offerynnau	instrument, instruments
chwythu	to blow
taro	to beat
powlen	bowl
cawl	broth, soup

i Beth ydy'r geiriau Saesneg?

trympedau

ciwcymbrau

perfformio

ffres

cerddoriaeth bît

Lluniau gan Alexander Koller a Zoefotografie. Diolch i'r "The Vegetable Orchestra (<http://vegetableorchestra.org/>)".



Help

Geirfa

rhaglen	progamme
gwybod	to know
parc cenedlaethol	national park
Eryri	Snowdonia
gogledd	north
dŵr	water
de	south
pupur	pepper
halen	salt
diwedd	end
ennill	to win



Chwarae yn y mwd



Gemau Olympaidd mewn Mwd?



www.chwarae-yn-y-mwd.com

Hafan

Gwybodaeth

Canlyniadau

Galeri

Cysylltu â ni

Ydych chi'n mwynhau chwaraeon?

Ydych chi'n mwynhau chwaraeon fel pêl-droed ... tennis ... rygbi ... hoci?

Ydych chi'n mwynhau gwyllo chwaraeon ar y teledu?

Wel, beth am y chwaraeon yma – Gemau Olympaidd mewn Mwd?

- **Beth:** Die Wattolümpiade
- **Pryd:** Dechrau Gorffennaf
- **Ble:** Brunsbüttel, Gogledd yr Almaen





Mae pobl yn dod i Brunsbüttel bob blwyddyn i gystadlu yn y gemau. Maen nhw'n rhedeg yn y mwd, chwarae pêl-droed yn y mwd, chwarae pêl-law yn y mwd, rasio sled yn y mwd, taflu welis yn y mwd. Maen nhw'n gwisgo gwisg ffansi ac maen nhw'n cael hwyl yn rhedeg drwy'r mwd, yn cicio pêl drwy'r mwd – ac yn syrthio yn y mwd gwlyb, brwnt. Hwyl!

Torri record y byd

Roedd 2014 yn flwyddyn arbennig iawn yn y Gemau yma achos roedd y chwaraewyr eisiau torri record y byd am wneud angel yn y mwd (fel gwneud angel yn yr eira!) ac felly ...



... gorweddodd 350 o bobl yn y mwd i wneud angel yn y mwd. Bobl bach!

Beth arall?

Mae seremoni arbennig i agor y Gemau – mae band yn perfformio.

Mae stondinau bwyd a diod yn y Gemau Olympaidd mewn Mwd. **Codi arian**

Mae'r Gemau'n codi llawer o arian at achosion da.

Y Gemau Olympaidd mewn Mwd - Cyffrous! Brwnt!
Hwyl! Gwych!

Help

Geirfa	
cystadlu	to compete
taflu	to throw
gwlyb	wet
brwnt	dirty
angel	angel
gorweddodd	lay
stondinau	stalls
achosion da	good causes

i Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

handball

to race

sleigh / sledge



Beth ydy'r broblem?

Rydych chi'n mynd i wrando ar stori Siân.

Yn gyntaf, dyma rai geiriau i'ch helpu chi.

Help

Geirfa

neges destetun	text (message)
ffôn symudol	mobile phone
paratoi	to prepare
drwy'r bore	all morning



Beth ydy'r broblem?

-4:32



O gwmpas Cymru

Mae Cymru'n hardd.

Mae Cymru'n gyffrous.

Mae Cymru'n hwyl!



Dyma farn rhai pobl ifanc:

Dw i'n hoffi mynd i Borthcawl yn yr haf achos mae traeth da yno - dw i'n mwynhau cicio pêl ar y traeth a nofio yn y môr. Fel arfer, rydyn ni'n aros mewn gwesty gwely a brecwast bach. Llynedd, es i i Borthcawl gyda Dad i Wyl Elvis. Dw i ddim yn hoffi Elvis, ond mae Dad yn dwlu ar Elvis. Roeddwn i'n teimlo embaras achos roedd Dad yn gwisgo dillad gwyn a wig ddu fel Elvis, ond roedd yr ŵyl yn hwyl.

Mike





Mae Mam-gu yn byw yn Aberaeron ac rydyn ni'n mynd yno'n aml. Dw i wrth fy modd yn mynd yno achos mae'n hardd iawn - mae'r harbwr yn hyfryd. Dw i wrth fy modd yn cerdded ar y traeth ac, yn yr haf, mae Gŵyl y Merlod a'r Cobiau yn y Cae Sgŵar, yng nghanol y dref.

Ceri



Dw i'n hoffi mynd i Gaerdydd i aros gyda fy ynci ac anti. Dw i wrth fy modd yn mynd i Gaerdydd achos dw i'n mwynhau siopa a dw i wrth fy modd yn mynd i'r Bae. Mae canolfan Dr Who yn ddiddorol iawn. Mae Caerdydd ar ddiwrnod gêm rygbi yn anhygoel! Fel arfer, rydyn ni'n teithio

yno ar y trê.

Jess



Mae Pen Llŷn yn ffantastig achos mae traethau da iawn yno ac mae'n hardd iawn. Dw i'n mwynhau gwersylla ym Mhen Llŷn. Es i Wakesstock Gŵyl y Môr yn Abersoch y llynedd gyda ffrindiau. Roedd e'n grêt. Roedd y tonfyrddio'n anhygoel ac roedd bandiau da yn canu. Roedden ni'n gwersylla. Gwych.

Tariq


Help

	Geirfa
gwesty	hotel
llynedd	last year
dwlu ar	to love
gŵyl	festival
anhygoel	incredible, awesome
merlod	ponies
cobiau	Welsh cobs
gwersylla	camping
tonfyrddio	wakeboarding



Byw ar blaned Mawrth

Ydych chi eisiau byw ar blaned Mawrth?
Yn 2024, bydd grŵp o bobl yn mynd i fyw
yno – am byth!
Ydych chi eisiau mynd gyda nhw?



Dyma rai pwyntiau pwysig am fynd i fyw ar
blaned Mawrth

Paratoi

Rhaid paratoi cyn mynd. Rhaid paratoi am
wyth mlynedd.

Rhaid dysgu sgiliau newydd, e.e.:

- sut i dyfu bwyd mewn lle bach
- sut i ofalu am eich dannedd ac am eich
iechyd chi
- sut i fyw'n hapus gyda grŵp bach iawn o
bobl.

Teithio

I fynd i blaned Mawrth, rhaid teithio mewn
roced, ond bydd llong ofod ar y roced.

Yn y llong ofod, bydd:

- lle i fyw
- bwyd
- paneli haul
- offer.

Ar y daith:

- rhaid bwyta bwyd mewn tun neu fwyd sy
wedi'i sychrewi
- rhaid cadw'n heini am dair awr y dydd
- rhaid defnyddio wet wipes am 7-8 mis achos
does dim bath dim cawod yn y llong ofod.

Ar blaned Mawrth

Bydd unedau byw ar y blaned ac yn yr
unedau bydd:

- ystafell fyw
- ystafell wely
- lle i weithio
- uned tyfu bwyd
- cawod
- lle i baratoi bwyd ffres.

Bydd hi'n bosib byw bywyd 'normal' a gwisgo
dillad pob dydd yn yr unedau byw ond rhaid
gwisgo siwt Mawrth tu allan.

Gweithio

Ar blaned Mawrth, rhaid adeiladu unedau
newydd a rhaid dysgu am y blaned, dysgu sut
i fyw ar y blaned, dysgu sut i dyfu planhigion
ac ati.

Cyffrous!